Jane Hutt AS

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Llywodraeth Cymru

29 Mai 2020

Gwybodaeth ddilynol o'r sesiwn dystiolaeth ar 14 Mai

Annwyl Jane,

Diolch i chi a'ch swyddog am gymryd rhan yn ein cyfarfod pwyllgor rhithwir ar 14 Mai i drafod effaith Covid-19. Roedd yn ddefnyddiol iawn a bydd yn ein helpu i lywio ein gwaith parhaus.

Rydym yn croesawu'r mesurau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i liniaru effeithiau anghyfartal a phenodol y pandemig ar rai grwpiau o bobl, ac i sicrhau bod gan bawb fynediad at wybodaeth hollbwysig, gan gynnwys:

- Cynnull grŵp cynghori BAME yn gyflym i asesu risgiau'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a materion economaidd-gymdeithasol yn gyflym;
- Darparu cyfieithydd iaith arwyddion mewn sesiynau briffio dyddiol i'r wasg;
- Diwygio'r cyfyngiadau symud er mwyn caniatáu i bobl â chyflyrau iechyd neu anableddau penodol adael eu tai fwy nag unwaith y dydd i wneud ymarfer corff
- Sicrhau bod pobl heb hawl i arian cyhoeddus (NRPF) sy'n ffoi rhag cam-drin domestig yn cael mynediad at lochesi dros dro;
- Dyblu'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) i £22 miliwn a thrin ceisiadau gyda mwy o ddisgresiwn a hyblygrwydd;
- Darparu £3 miliwn i sicrhau bod gan blant fynediad at liniaduron a'r rhyngrwyd tra bod ysgolion ar gau;

- Rhoi taliad ychwanegol o £500 i weithwyr gofal cymdeithasol, ac
- Ymgysylltu â chymunedau penodol trwy grwpiau rhanddeiliaid, a'r effaith gadarnhaol y mae hyn wedi'i chael ar benderfyniadau polisi.

Roedd rhai materion y byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth amdanynt, yr wyf yn ymhelaethu arnynt isod:

**Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

Diolch am y wybodaeth a roddwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth ac am gytuno i rannu â'r Pwyllgor eich ymateb i ohebiaeth a gafwyd gan Gymorth i Ferched Cymru mewn perthynas â chyllid ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn ymateb i Covid-19. **Mae hwn yn faes sy'n destun pryder penodol i'r Pwyllgor ac mae'n bwysig sicrhau eglurder ynghylch yr amryw gyhoeddiadau cyllido ar gyfer y ddarpariaeth mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a bod y cyllid hwn yn cyrraedd gwasanaethau rheng flaen.**

Yn ein cyfarfod ar 2 Mehefin, byddwn yn cynnal sesiwn dystiolaeth yn canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a disgwyliaf ysgrifennu atoch eto gydag argymhellion yn dilyn y sesiwn honno.

**Grŵp cyllido cynaliadwy ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

Yn ystod y sesiwn egluroch chi fod gwaith y grŵp cyllido cynaliadwy yn mynd rhagddo trwy gydol y pandemig a'i fod yn paratoi cynigion ar gyfer yr hyn y bydd ei angen yn y sector ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. **Cytunoch chi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y grŵp, ac yn benodol, byddem yn ddiolchgar am gael amserlen wedi'i diweddaru ar gyfer datblygu model cyllido cynaliadwy ar gyfer y sector.**

**Cymunedau pobl dduonac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME)**

Fel y gwnaethom drafod, mae'r risg o farwolaeth yn gysylltiedig â'r coronafeirws yn gryn dipyn yn uwch ymhlith rhai grwpiau ethnig nag ydyw ymhlith pobl ag ethnigrwydd gwyn. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos mai grwpiau BAME fydd yn cael yr ergyd fwyaf yn economaidd. Rydym felly'n croesawu'r camau gweithredu cyflym gan Lywodraeth Cymru i ffurfio grŵp cynghori BAME, a'r newyddion y bydd asesiad hunan-risg yn cael ei gyhoeddi'n fuan iawn. Fodd bynnag, **credwn y byddai'n fuddiol cyhoeddi cofnodion ac allbynnau'r grŵp hwn, a gofynnwn ichi ystyried gwneud hynny.**

**Cam-drin pobl hŷn**

Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi cael tystiolaeth gan Hourglass Cymru ynghylch cynnydd yn nifer y galwadau i'w llinell gymorth, a phryderon am bobl hŷn sy'n gwarchod ac yn dibynnu ar bartneriaid neu berthnasau sy’n eu cam-drin yn ystod y cyfnod hwn.

Fel y gwnaethoch nodi yn ystod y sesiwn dystiolaeth, mae deunydd cynghori ar ffurf copi caled yn fwy tebygol o gyrraedd pobl hŷn, ac rydym yn croesawu’r ffaith bod mentrau fel hyrwyddo llinell wybodaeth Hourglass drwy barseli bwyd Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn croesawu hyfforddiant Llywodraeth Cymru gyda fferyllfeydd cymunedol ar sut i adnabod cam-drin domestig, ond rydym yn dal i bryderu bod angen gwneud mwy i sicrhau bod cymorth a chefnogaeth ar gael i'r grŵp bregus hwn, sy'n fwy tebygol o fod wedi eu hallgáu yn ddigidol ac yn anymwybodol o ymgyrchoedd a gynhelir ar y cyfryngau cymdeithasol.

Byddem yn ddiolchgar am **wybodaeth bellach ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn estyn allan at grwpiau sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol ac sydd mewn perygl o gael eu cam-drin**, gan gynnwys unrhyw gynlluniau i weithio gydag archfarchnadoedd a chwmnïau dosbarthu eraill ledled Cymru i sicrhau bod gwybodaeth ar ffurf copi caled am ymgyrchoedd 'Ddylai neb fod yn ofnus gartre' a 'Paid cadw’n dawel' yn cael ei chynnwys mewn archebion siopa.

## Data

Yn ystod y sesiwn cytunoch chi i ddarparu lincs at ddata a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch ffigurau marwolaethau sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn ôl rhyw, ethnigrwydd a galwedigaeth, ond fel yr egluroch, nid yw'r data hyn wedi'u dadgyfuno ar gyfer Cymru. Mae hyn yn destun pryder penodol i’r Pwyllgor a byddem yn ddiolchgar i **glywed y diweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran cofnodi data manylach ynghylch marwolaethau sy'n gysylltiedig â Covid-19, gan gynnwys gwybodaeth am ethnigrwydd ac am weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.**

Efallai y byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi argymell yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data cyflogaeth sy’n ofynnol yn ôl dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus mewn un lleoliad ar ei gwefan, mewn fformat sy’n gwneud y data’n hawdd eu dadansoddi. **Credwn y byddai cyflwyno’r argymhelliad hwn yn hwyluso’r gwaith o gasglu data hanfodol ar ethnigrwydd gweithlu'r sector cyhoeddus, yn enwedig yn y GIG, er mwyn deall yn well faint o bobl sydd yn y categori risg uwch hwn.**

## Y sector gwirfoddol

Cawsom drafodaeth fer ar drefnu gwirfoddolwyr trwy Wirfoddoli Cymru a chytunwyd i ddarparu data ar yr ymateb ledled Cymru. At hynny, byddai'n ddefnyddiol pe gallech

**rannu gwybodaeth ynghylch a yw cyllid brys yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer elusennau sy'n darparu rhai gwasanaethau penodol (fel gwasanaethau cynghori neu wasanaethau cam-drin domestig), a pha mor gyflym y mae cyllid brys y trydydd sector yn cyrraedd gwasanaethau rheng flaen.**

### Gwasanaethau cynghori

Diolch i chi am eich atebion ynghylch y gefnogaeth a roddwyd i wasanaethau cynghori ers dechrau'r cyfyngiadau symud, ac rydym yn croesawu eich ymrwymiadau i ddarparu gwybodaeth mewn gwahanol fformatau ac ieithoedd, a sicrhau bod pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn gallu cael mynediad at wybodaeth. Bydd yn hanfodol i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda gwasanaethau cynghori i geisio atal pobl rhag mynd i argyfwng ariannol, gan gynnwys sicrhau y gall pobl gael gafael ar y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Felly dymunwn ail-bwysleisio pwysigrwydd yr **argymhelliad a wnaethom yn flaenorol fel rhan o'n gwaith ar** Fudd-daliadau yng Nghymru**, y dylai Llywodraeth Cymru weithredu i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar yr holl fudd-daliadau yng Nghymru.**

### Hawliau dynol

Roedd nifer o faterion yn ymwneud â hawliau dynol nad oedd modd i ni eu trafod yn ystod y cyfarfod oherwydd cyfyngiadau amser:

- A fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ei dadansoddiad hawliau dynol ei hun o unrhyw apiau olrhain cysylltiadau a gyflwynir;
- A yw cymesuredd mesurau brys a'u heffaith ar hawliau dynol yn cael eu monitro;
- A yw arferion da a chanllawiau hawliau dynol rhyngwladol yn cael eu defnyddio i lywio gwaith Llywodraeth Cymru, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio canllawiau hawliau dynol Sefydliad Iechyd y Byd i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau sylfaenol pobl yng Nghymru, ac, os felly, sut y gwneir hyn yn ymarferol;

### Materion eraill

Byddwch hefyd yn cofio bod un Aelod wedi lleisio pryderon yn ystod y sesiwn ynglŷn â'r rhwystrau i bobl sy'n ddall neu'n rhannol ddall o ran cael mynediad at siopa blaenoriaeth a gofynnodd am y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod trefniadau o'r fath ar waith. Lleisiodd yr Aelod bryderon hefyd ynglŷn â disgyblion awtistig yn cael mynediad at ysgolion hyb. Cytunoch chi i roi rhagor o ystyriaeth i'r ddau fater hyn, a byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar i gael y newyddion diweddaraf yn eu cylch.

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod materion cydraddoldeb a hawliau dynol wedi'u hymgorffori'n ddwfn yn ei hymateb i argyfwng Covid-19 a'r adferiad ar ôl yr

argyfwng, a byddwn yn parhau i drafod y materion hyn gyda rhanddeiliaid wrth i'n hymchwiliad fynd yn ei flaen.

Yn gywir,

John Griffiths AS

Y Cadeirydd

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.